# Cricieth

**Pellter:** 2.3km / 1.4 milltir
**Anhawster:** hawdd
**Amser cerdded:** 1 awr

Digon o gaffis yng nghanol y dref yn ogystal ag ar lan y môr. Toiledau cyhoeddus yng nghanol y dref ac yn nes at y traeth.

Dim Camfeydd

Mae'r llwybr hwn yn dilyn cymysgedd o lwybrau tarmac a phalmentydd gyda'r opsiwn o fynd ar y traeth.




1. Wrth adael yr orsaf, cymerwch y llwybr sy'n croesi'r cledrau. Dilynwch y llwybr hwn a phenderfynu a ydych eisiau archwilio'r warchodfa natur fach ar y naill ochr neu'r llall. Pan fydd y llwybr yn mynd i fyny ychydig ac yn cyrraedd cyffordd, dilynwch y llwybr i'r dde. Bydd yn ymuno â ffordd ac yna'n cwrdd â'r traeth.

2. Trowch i'r chwith wrth y môr a dilyn y ffordd i fyny'r allt, gan basio'r castell ar y dde. (Os ydych chi'n dymuno mynd i mewn i'r castell, gellir prynu tocynnau ymlaen llaw ar-lein neu ar y safle). Bydd y ffordd yn dechrau disgyn eto ar ôl y castell ac ewch ymlaen tuag at orsaf y bad achub (a sefydlwyd yn 1853) a'r môr eto.

3. Gallwch chi naill ai gerdded ar hyd glan y môr neu ar y prom nes bydd y ffordd yn troi i'r chwith wrth Dylans. Dewch yn ôl drwy'r ardd (mae toiledau ar gael yma) at y ffordd wrth orsaf y bad achub. Yn y fan hon, gallwch fynd i mewn i'r dref a mwynhau'r siopau a'r caffis.

4. I ddychwelyd i'r orsaf, dilynwch y ffordd dros y rheilffordd a chymerwch droad i'r chwith i'r maes parcio arhosiad hir. Yn y fan hon eto mae toiledau cyhoeddus. Mae llwybr ar ben draw'r maes parcio yn eich arwain yn syth yn ôl i'r orsaf.

Effeithir ar lwybrau gan gau llwybrau, rhwystrau a dargyfeiriadau.Os byddwch yn canfod na allwch barhau â'ch taith, ceisiwch ddod o hyd i lwybr arall neu dilynwch eich llwybr am yn ôl. Rhowch wybod i'ch awdurdod lleol am unrhyw broblemau

Dylunio a Darlunio ©Arry Cain 2023